

papur priordy



***“nid ofnaf ddim, ei law a’ m tywys i
â’i gfael ynof er nas gwelaf hi.”***

John Roberts (1910-84) - Caneuon Ffydd: 758

***Dewiswyd gan Iwan Evans
Gweler y rheswm am ei ddewis y tu mewn***

**Rhifyn 331
PAPUR MAWRTH 2020**

Gair gan ein Gweinidog

Y Gromlech

MAE'R newid diweddar yn amgylchiadu'r teulu wedi golygu fy mod wedi gorfod cael y gwaith diflas o dddidoli nifer o bethau yng nghartref fy nhad. A gwaith digon diflas yw e hefyd. Ond yng nghanol y diflastod, daeth ambell beth i'r golwg a ddaeth â gwên i'm hŵyneb. Roedd mam yn cadw popeth! Mewn drôr o dan wn ni ddim beth yn union i gyd, fe ddes o hyd i'r bathodyn a oedd ar fy mlaser yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Arno mae llun o gromlech gyda'r arwyddair oesol '*Dysgu Gorau, Dysgu Byw.*' Am arwyddair arbennig. Pa faint bynnag o addysg a gawn ni mewn sefydliadau gwahanol, yr addysg orau oll yw ysgol bywyd.



Yn ogystal â'r arwyddair, ceir llun o'r gromlech ar y bathodyn hefyd. Nid yw cromlechi yn ddelwedd anghyfarwydd yng Nghymru a thu hwnt. Meddyliwn yn arbennig am Bentre Ifan, Carreg Coetan yn Nhrefdraeth, a thybed a glywsoch am Gromlech Gwal y Filiast rhwng Login a Llanglydwen? Dyma i chi le hudolus iawn. Ydy, mae'r gromlech yn un o eiconau'n cenedl (a thu hwnt) a'r mannau claddu hyn yn denu ymwelwyr i Gymru fach.



Onid dychmygwch fy syndod o weld Cromlech yng nghanol dinas

Caerdydd yn ddiweddar! Mewn gardd ffrynt tŷ ar Y Rhodfa. Nid cromlech sy'n dyddio nôl i'r oes Neolithaidd yw hon, ond un a saif yng ngardd cartref a adeiladwyd gan James Howell, sef sylfaenydd Siop Howells, Caerdydd. Codwyd y tŷ gan James Howell ac yn 1896, Cafodd ei brynu gan Gyngor Bwrdeisdref Caerdydd ac fe'i defnyddiwyd fel cartef i'r Arglwydd Faer a hefyd fel llety i farnwyr a fyddai'n gweithio yn yr



uchel lŷs. (*James Howell gododd y Mansion House presennol hefyd gyda llaw*).

Ym 1918, trowyd y cartref yn ysbyty ar gyfer morwyr a milwyr a gollodd aelodau o'u cyrff (*The Prince of Wales Hospital for Limbless Sailors and Soldiers*). Er mwyn nodi agoriad yr ysbyty, codwyd cromlech yn yr ardd flaen! Ariannwyd y gromlech gan Miss Cory o Dŷ Dyffryn. Mae'r gromlech hon wedi ei chynllunio ar batrwm y Gromlech Neolothaidd ym Maes-y-Felin, ger Llwyneliddon (St Lythans).

Bu'r tŷ'n wag am nifer o flynyddoedd tan i gymdeithas dai ei brynu a'i droi'n fflatiau. Er nad yw hanes y gromlech hon yn mynd â ni nôl i'r cyfnod Neolithaidd, nac yn awgrymu bod neb wedi'i gladdu ynddi, eto, mae'n gofnod bach diddorol o hanes ein prif-ddinas.

Cromlech ar fathodyn mewn drâr.
Cromlech mewn gardd mewn dinas.
Gymru fach - rydych yn llawn sypreisis!




MAE arwyddair fy hen ysgol yn wir pob gair! *'Dysgu Gorau yw Dysgu Byw'* Rydym yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd.

Gweddiwn

Arglwydd Iesu, ni wn lawer amdanat ti,
Ond rwy'n barod i ddysgu;
Ac rwy'n barod i roi'r cyfan y gwn amdanaf fi
I'r cyfan y gwn amdanat ti;
Ac rwy'n barod i fynd ymlaen i ddysgu.

Amen

Gweddi gan Nansi Martin, allan o Mil a Mwy o Weddïau



CYTÛN CAERFYRDDIN

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar Nos Lun,
15 Mehefin 2020 am 7 yn Festri Capel y
Bedyddwyr Saesneg

Mis Mawrth	Darlleniad
Wythnos 1 Gŵyl Dewi	Salm 87
Wythnos 2	Ioan 3:1-17
Wythnos 3	Ioan 4:5-42
Wythnos 4	Ioan 9:1-41
Wythnos 5	Ioan 11:1-45

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

**RHIAN EVANS,
JOHN a CARYS GREEN
a
DI ENW**

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

Pwyllgor Apêl Llangynnwr a Nantycaws
Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2021
yn trefnu

NOSON YNG NGHWMNI
ROBIN McBRYDE
a
TECWYN IFAN

Nos Fercher 4 Mawrth 2020
Clwb Rygbi'r Cwins am 7.30

Tocynnau £15: Hanna Hopwood Griffiths (07791 706593) neu ebostio aelod o'r pwyllgor ar Llangynnwr2021@gmail.com



Mari Jenkins....

CWRDD PLANT
8 Chwefror 2020



Cynhaliwyd Cwrdd Plant hwyliog iawn yn y Priordy er gwaethaf y tywydd. Roedd Storm Ciara ar ei hanterth a phawb wedi cyrraedd yn wlyb diferu ac yn hapus i ddianc o'r tu allan i gynhesrwydd y Capel!

Dechreuodd yr oedfa gyda Beti-Wyn yn darllen Salm 150 *Molwch yr Arglwydd. Molwch Dduw yn ei deml...* Ymunodd y gynulleidfa i ddarllen rhannau o'r Salm.

Diolchodd Beti-Wyn i aelodau'r band am eu gwaith diwyd - Angharad Wyn wrth yr allweddellau, Gareth Gravell ar y gitâr, Meredydd Jones ar y drymiau, Jayne Woods ar y fflwt a Gwion Jones ar y clarinet. Hyfryd oedd gweld aelodau newydd yn y band.

Elliw gyhoeddodd yr emyn cyntaf sef *Dyro gân dan fy mron* (CFf: 397). Wyn Tegryn Evans oedd y cyhoeddwr a'r casglwyr oedd Iestyn, Gwydion, Meredydd ac Anni a braf yw gweld y rhai lleiaf yn gwneud eu gwaith yn gydwybodol dros ben.

Dangosodd Beti-Wyn dlws newydd a gafodd ei saernïo gan Gyfadran Dechnoleg Ysgol Gyfun a Bro Myrddin. Mae'r tlws yn rhodd gan y Priordy i'w gyflwyno yn Noson Wobrwyo Flynyddol yr Ysgol i ddisgybl sy'n dangos ymdrech arbennig ym maes Addysg Grefyddol.

Cadi oedd yn cyhoeddi'r emyn nesaf, *Hedd sy'n llifo* (CFf: 281). Roedd hi'n hyderus yn darllen ar ei phen ei hun gan fod Ifan yn sâl.

Daeth Ethan i'r pulpud i gyflwyno darlenniad a dechreuodd drwy ddweud "*Gyda chymaint o newyddion trist yn ein byd, mae'n bwysig ein bod yn gwneud ein gorau i roi rheswm i'r bobl o'n hamgylch i fod yn hapus...*"



Cafwyd cyflwyniad ar y sgrîn yn dangos lluniau pethau hapus –ffrwyth ciwi, twll mewn palmant,

clawr bin, paned o goffi, malwr caws, bysedd cloc, bag teithio, madarch, cadair, sgrîw, awyren a Mr Gwên. Pob un gyda gwên!

Nansi oedd yn cyhoeddi'r emyn nesaf, *Braf yw bwyta* (addasiad o emyn Saesneg gan Eddie Jones) ac roedd pawb wedi mwynhau'r darlenniad hwyliog

Daeth Ana i'r blaen gyda gweddi sensitif ... *Helpa ni i ddod â hapusrwydd yn gwmws fel y gwnaeth Iesu*. Arweinodd hyn at Weddi'r Arglwydd. Cyhoeddodd Alys yr emyn *Cariad Crist sydd yn rhyfeddol* (CFF: 412). Daeth y band taro ymlaen i gyfeilio a chroesawyd ffrindiau newydd atom, sef Greta a Cynan.

Arhosodd y plant yn y blaen i glywed anerchiad Beti-Wyn ar y thema *Gwenu / Hapusrwydd*. Dechreuodd drwy ofyn cwestiwn: *Beth sydd well gennych - gwisgo gwên neu edrych yn ddiflas?* Mae Iesu am i ni fod yn hapus a hefyd helpu pobl eraill i fod yn hapus. Roedd Beti-Wyn am greu cacen arbennig iawn - *Cacen Hapus Beti-Wyn*. Dangosodd ei hoffer - ffwrn, powlen blastig a dwy lwy bren – a'i rysâit. Byddai'n defnyddio cynhwysion y Beibl i'w rhoi yn y gacen. Daeth Tomos ymlaen i ddarllen y rysâit tra oedd Luned a lestyn yn cymysgu'r cynhwysion.



Roedd y cynhwysion wedi'u gosod o amgylch y Capel yn barod i'w defnyddio. Y cynhwysyn cyntaf i'w roi yn y bowlen gymysgu oedd Efengyl Mathew 15:25 - *Ond dyma'r wraig yn dod â phenlinio o'i flaen. HELPA fi Arglwydd*. Roedd jar wrth ymyl Thelma Evans yn y gynulleidfa a'r gair HELP wedi'i ysgrifennu arni. Casglwyd y jar a rhoi'r cynhwysyn yn y bowlen.

Yr ail gynhwysyn oedd Luc 6:35 - *Rhaid i chi fod yn GAREDIG fel mae Duw ein Tad yn GAREDIG*. Aeth Miriam i gasglu jar CAREDIGRWYDD oddi wrth Gwynn Bowyer.

Y trydydd cynhwysyn i'w roi yn y bowlen oedd Mathew 23: 34 - *Byddaf i'n anfon proffwyd atoch chi a phobl DDOETH*. Aeth Greta i gasglu bwced DOETHINEB gan Heather Williams.

Y cynhwysyn nesaf i fynd i mewn i'r bowlen oedd 1Corinthiaid 13:4 - *Mae cariad yn GYMWYNASGAR*. Aeth Gwydion i gasglu'r pot CYMWYNASGAR oddi wrth Peter Hughes Griffiths.

Yna ychwanegwyd tri llond llwy o Epistol Iago 5:7 - *Felly frodyr a chwiorydd byddwch yn AMYNEDDGAR*. Aeth Luned i gasglu'r pot AMYNEDD gan Huw Jones.

I orffen ychwanegwyd llond whilber o Efengyl Ioan 13:35. - *Dyma sut bydd pawb yn gwybod eich bod chi'n ddilynwyr i mi, ac am eich bod chi'n CARU'CH gilydd*. Aeth Mac i nôl y whilber oddi wrth Delme Thomas.

Rhoddwyd cynnwys y bowlen, wedi'i gymysgu'n drwyadl, ar dun. Yna, gwisgodd Beti-Wyn faneg a rhoi'r tun yn y ffwrn am ddeng munud. A thra oedd y cynhwysion yn coginio, cawsom gyfle i fynd drostynt unwaith eto, sef.

HELP CAREDIGRWYDD AMYNEDD CYMWYNAS DOETHINEB CARIAD

Bu'r plant yn esbonio ystyr y geiriau hyn a phawb yn cynnig syniadau gwreiddiol. Yna, daeth yn amser i dynnu'r gacen o'r ffwrn – un bitw fach er syndod i'r plant i gyd – ond un gyda gwên! Ar ben hynny, roedd syndod arall gan ein Gweinidog - byddai'n dosbarthu cacen wyneb hapus i bob un o'r plant ar ddiwedd yr oedfa!

Cyhoeddwyd yr emyn olaf *Ceisiwch yn gyntaf*. (Cff:274) ac yna'r fendith gan ein Gweinidog.



Buom yn ffodus iawn i fod yn yr oedfa hon yng nghwmni plant byrlymus dros ben ac yn gwrandao ar neges mor ysbrydoledig ein Gweinidog. Diolch i Beti-Wyn a phawb a gymerodd ran.



**cymorth
cristnogol**

BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL
Dydd Sadwrn 21 Mawrth 2020 - 10 tan 12
yng nghwmni

MAER CAERFYRDDIN
Y CYNGHORYDD JEFF THOMAS
Capel y Bedyddwyr Saesneg

JONA, GWENLLIAN A MARGED YN RECORDIO AR GYFER YR OEDFA AR RADIO CYMRU



***Cyfle hefyd i gwrdd ag
Ifan Jones Evans
yn y Stiwdio!***

YR OEDFA - RADIO CYMRU

YR HER FAWR i ni yn yr Eglwys Gristnogol heddiw yw dal ati i fod yn ffyddlon a theyrngar i Iesu mewn gweddi, gwasanaeth a gwaith a hynny er gwaethaf unrhyw beth sy'n ceisio'n hargyhoeddi'n wahanol. Dyna oedd prif neges ein Gweinidog yn yr Oedfa ar *Radio Cymru* a ddarlledwyd ddwywaith ar Ddydd Sul, 2 Chwefror 2020.



Cafodd ei symbylu i'r cyfeiriad hwn gan ei thaith awyr ddiweddar o Gaerdydd i Gaeredin, prifddinas yr Alban a'r stori am



ffyddlondeb un o arwyr mawr yr Albanwyr, sef y terier bach Bobby a fu mor ffyddlon i'w berchennog y Cwnstabl John Gray. Codwyd colofn arbennig i Bobby yn Greyfriars Kirkyard ym 1873, heb fod yn bell o

fedd ei feistr.

Clywsom fel mae'r Beibl yn llawn o enghreifftiau o ffyddlondeb Duw i'w bobl. A bod yn ffyddlon i Dduw yw'r un ffodd y gallwn ninnau ddiolch Iddo am hyn. Rydyn ni'n gweld patrwm y ffyddlondeb hwnnw ym mywyd ac esiampyl yr Iesu Byw. Ein braint yw cyflwyno'n hunain i Iesu, byw yn ei gwmni, a dyfalbarhau'n ffyddlon yng nghymdeithas a gwaith ei Eglwys.



CYMERWYD RHAN yn yr oedfa hefyd gan dri o bobl ifainc y Priordy, sef **Jona** yn darllen hanes galw'r disgyblion cyntaf a **Gwenllian** a **Marged** yn cyflwyno'r weddi. Diolch iddyn nhw, fel ein Gweinidog, am gyflawni'u gwaith mor raenus ac am oedfa ddiddorol a bendithiol.



DATHLU'R PASG



Y TABERNACL, CAERFYRDDIN

NOS IAU CABLYD

9 Ebrill 2020

7.00pm

OEDFA GYMUN

dan arweiniad

Y PARCHEDIG

DDR DESMOND DAVIES

A'R PARCHEDIG

WYNN VITTLE

DYDD GWENER Y GROGLITH

10 Ebrill 2019

10.00am

OEDFA BREGETHU

gyda'r

Y PARCHEDIG

ROB NICHOLLS

EGLWYS GYMRAEG

CANOL LLUNDAIN

TAITH GERDDED Y PASG - CYTÛN

Dydd Gwener 10 Ebrill 2020 - 12 o'r gloch, gan ddechrau o'r Capel Wesle lle bydd paned ar gael ymlaen llaw

CARIO'R GROES I BEN BRYN MYRDDIN

Prynhawn Gwener y Grogolith, 10 Ebrill 2020

Gadael Maes Parcio Canolfan Bryn Myrddin am 2.30 wedi gair o weddi a chario'r groes i ben y bryn. Oedfa ar ben y bryn am 3 o'r gloch a phaned a chacen (£3)

yng Nghanolfan Bryn Myrddin i ddilyn

Croeso i bawb o bob oed

Gwisgwch esgidiau synhwyrol



PYTHEFNOS MASNACH DEG: 24.02.2020 – 08.03.2020



CAPEL Y TABERNACL

YR AIS, CAERDYDD

Nos Fawrth 5 Mawrth 2020 – 7 pm

Mae'n bedwar canmlwyddiant cyhoeddi Beibl 1820. Cynhelir yr oedfa nid yn unig i ddathlu'r achlysur arbennig hwn ond

hefyd gyfraniad y Beibl i fywyd Cristnogol Cymru yn ogystal â'i chyfraniad i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.



RHODD ADDAS I GOFIO GWEINIDOG ARBENNIG



Yn y llun: Y Parchedig Beti-Wyn James (Gweinidog y Priordy), Betsan a'i chymar Terry

Rydyn ni'n cofio'n annwyl iawn am y diweddar Barchedig E Denzil James (1932-2016). Bu'n weinidog ffyddlon i Iesu Grist, yn fawr ei gonsŷrn dros ei gymuned leol ac yn ŵr hynod o ymarferol. Mor addas felly yw'r rhodd hael a gyflwynwyd i'r Priordy, Caerfyrddin, ble bu'n ddiagon anrhydeddus, gan ei ferch Betsan er cof amdano. Ar wal flaen y capel saif diffibriliwr erbyn hyn.. Mae'r peiriant hwn i'w ddefnyddio mewn achosion o ataliad sydyn ar y gallon. Cafodd ei leoli'n allanol fel y bydd nid yn unig at wasanaeth aelodau'r capel ond hefyd yr ardal leol. Gosodwyd plac yng nghyntedd y capel i gydnabod y rhodd ymarferol hon. Mae'n dyled yn ogystal i'r Dr Angharad Wyn am ei chyngor parod wrth ddewis y peiriant. Trefnwyd hyfforddiant. (sy'n rhan o becyn Calonau Cymru) ar gyfer aelodau'r capel ar sut i'w ddefnyddio..



Papur Priordy'n cofio....


DANIEL JAMES Gwyrosydd 1848 - 1920



UN O FFEFRYNNAU mawr Cymru yw Calon Lân. Cyfansoddwyd y geiriau ar ddechrau degawd olaf y 19 ganrif. Daethant i amlygrwydd yn ystod Diwygiad 1904-5 a thyfu'n boblogaidd o hynny ymlaen. Ble bynnag y mae nifer o Gymry'n ymgynnull – boed mewn capel, cyngerdd, eisteddfod, tafarn neu gae rygbi, gallwch fentro y bydd canu ar *Galon Lân*. Mae'n ail anthem genedlaethol Cymru i lawer.

Awdur y geiriau yw Daniel James ac mae *Cymdeithas Calon Lân*, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2018, yn prysur geisio gwireddu nifer o brosiectau amrywiol a chynhyrfus i gofio canmlwyddiant ei farw ar 11 Mawrth 1920 – ac nid 16 Mawrth fel sydd ar ei garreg fedd.

Cafodd Daniel James ei eni mewn bwthyn yn Heol Llangyfelach, Lisbon, Tre-boeth, Abertawe ar 23 Ionawr 1848, yr ail o bump o blant i Daniel James, saer maen, a'i briod Mary. Collodd ei dad yn ifanc a dechrau gweithio yn ei ardegau cynnar er mwyn helpu i gynnal y teulu. Dringodd i fod yn bwdler yng Ngwaith Haearn Treforys. Bu'n gweithio wedyn am flynyddoedd yng Ngwaith Alcam Glandwr.



Roedd y teulu'n addoli'n ffyddlon yng Nghapel Annibynnol Mynydd-bach yn Heol Llangyfelach

(Canolfan Calon Lân erbyn hyn). Yn awyrgylch y capel hwnnw y codwyd y Daniel James ifanc. Cafodd ei annog gan rai o aelodau hyn y Capel i astudio techneg ysgrifennu barddoniaeth. Ymdrwythodd yng ngwerslyfr barddonol David Watkin Jones (Dafydd Morganwg) *Yr Ysgol Farddol* (1869) a'i lyfr gramadeg *Yr Ysgol Gymreig*. Ei enw barddol gwreiddiol oedd *Dafydd Mynydd-bach* (ar ôl Mynydd-bach ger Tre-boeth) ond erbyn 1879 roedd wedi'i newid i *Gwyrosydd*



ar awgrym Dafydd Morganwg Ymddangosodd llawer o'i gerddi mewn cyfnodolion a phapurau newydd ac roedd yn boblogaidd fel telynegydd a chyfansoddwr darnau adrodd. Cyhoeddwyd *Caneuon Gwrysydd* (1885), *Caniadau Gwrysydd* (1892) ac *Aeron Awen Gwrysydd* (1898) sef pigion o'i holl waith. Cafwyd hefyd gasgliad newydd o'i waith gan Gymdeithas y Mabinogion Abertawe wedi iddo farw.

Yn ŵr ifanc roedd yn arbennig o hoff o fynd i'r King's Head yn Nhre-boeth lle



byddai'n eistedd ar **gadair uchel** yn cyfansoddi darnau i'w ffrindiau'n gyfnewid am ddi. Ni wnaeth hyn fawr o les i'w enw da ymysg aelodau'r capel yn nyddiau twf y mudiad dirwest! Mae'r gadair i'w chael o hyd.

Bu dan orfod i symud o'i gynefin wrth i'r diwydiant yng Nglandwr ddirywio a chau. Ar ôl cyfnodau byr yn gweithio yn ardaloedd Dowlais a Thredegyr, cafodd waith dan ddaear ym Mlaengarw, ger Pen-y-bont ar Ogwr ac yna'n ddiweddarach yn un o byllau glo Nixon Aberpennar neu'r

Mount fel y byddai'n galw'r lle. Treuliodd ryw ugain mlynedd yn y *Mount*, gan orffen ei ddyddiau gwaith fel torrwr beddau yn y dref. Ym 1918, dychwelodd i Danylan, Treforys, i fyw gyda'i ferch ieuengaf a'i gŵr. Bu farw ddwy flynedd yn ddiweddarach a'i gladdu ym mynwent Capel Mynydd-bach gyda'i wraig gyntaf a'i fab. Bu'n briod ddwywaith ac yn dad i wyth o blant a llystad i bump.

Mae'n debyg mai tra oedd yn byw ym Mlaengarw y cyfansoddodd Gwrysydd eiriau Calon Lân. Tybed ai cyfansoddi cân foesegol grefyddol a wnaeth ar y dechrau ac i honno dyfu'n emyn gweddigar ei naws? Hawdd deall i'r geiriau apelio at werin bobl dlawd y cyfnod. Wedi'r cyfan, roedd meddiannu cyfoeth y byd y tu hwnt i'w breiddwydion gwyllt ond gallent freuddwydio ac erfyn am galon lân. Dim ond un cyfeiriad sydd yn y geiriau at Dduw ond mae'r ple am galon lân yn un wirioneddol ysbrydol ac fel *Caneuon Ffydd* (780), fe gyfrifwn y gân yn emyn yn yr erthygl hon.

Roedd pedwar pennill yn y darn gwreiddiol ond nid yw'r trydydd yn *Caneuon Ffydd*, sef

**Einioes frau yn ddu gan ofid
Fedd pleserau'r byd a'i glod;
Ond ymchwyddo llanw gwynfyd
Calon lân tra'r nef yn bod.**

Mae *Cydymaith Caneuon Ffydd* yn dyfynnu J Henry Williams (*Ar ei ben bo'r goron – 1906*) sy'n honni mai perygl yr emyn yw ei fod yn cuddio Crist. Yn ôl Williams 'gweld Duw y mae'r pur o galon ac nid gweled ei hunan fel sydd yn yr emyn hwn'.


Tybir mai Thomas Bedford Richards (1956-1934), organydd am gyfnod yng Nghapel Bethania, Blaengarw, oedd y cyntaf i gyfansoddi tôn ar y geiriau Calon Lân. Ond cyfuniad arall sydd wedi cydio a tharo'r nod! Credir i Daniel James wahodd ei ffrind **John Hughes (1872-1914)**, yn wreiddiol o Benbryn, Aberteifi ond



a godwyd o ddyddiau cynnar iawn yn Abertawe, i gyfansoddi tôn ar y geiriau. Ymddangosodd geiriau a thôn **John Hughes** gyda'i gilydd yn *Seren yr Ysgol Sul* yn 1899 a daeth y cyfuniad yn boblogaidd yng nghymanfaoedd canu'r cyfnod. Mae'r geiriau hefyd yn cael eu canu bellach ar y dôn *Blaenwern* gan William Penfro Rowlands (1860-1937), arweinydd y gân am gyfnod maith yn y Tabernacl,, Treforys.

Er ein bod yn byw yn oes yr *Hymns and Arias* mae Calon Lân yn rhan bwysig o ddiwylliant ein cenedl o hyd. Ychwanegwyd at boblogrwydd mwy diweddar yr emyn drwy berfformiad *Only Boys Aloud* ar *Britain's Got Talent*, datganiadau'r sêr Bryn Terfel a Katherine Jenkins a dehongliad trawiadol ond anarferol Cerys Matthews (yn cyfuno tonau Calon Lân a Blaenwern), ymgyrch ganu #calonlan i annog a hyrwyddo Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn Siapan 2019 a bwrwm plant Ysgol Gynradd Hiakari yn Kitakyushu yn morio'r cytgan adeg yr un gystadleuaeth. Ar ben hynny, cafodd datganiad rhai aelodau seneddol o'r emyn yn Nhy'r Cyffredin ychydig yn ôl dipyn o sylw!

Arwydd o'r modd y mae apêl syml geiriau Gwrysoydd wedi ennill eu plwyf yng nghalon y Cymry oedd enwi Parc Calon Lân ym Mlaenafon (a agorwyd gan y newyddiadurwr Huw Edwards yn 2008) ar ei ôl a hefyd Ysgol Gynradd Gwrysoydd a Heol Gwrysoydd yn Abertawe. Mae coflech iddo yn Neuadd Gymunedol Treboeth (wedi'i osod y tu mewn i'r adeilad erbyn hyn). Cynhyrchwyd hefyd ffilm animeiddiedig yn olrhain ei hanes gan ddisgyblion Ysgolion Cymraeg Tirdeunaw a Bryntawe ac Ysgol Gwrysoydd. A'r tu allan i Gastell Aberteifi yng Ngheredigion mae Palmant Calon Lân er cof am John Hughes, awdur y dôn sy'n priodi mor effeithiol â'r geiriau.



Nid wy'n gofyn bywyd moethus,
aur y byd na'i berlau mân,
gofyn rwyf am galon hapus,
calon onest, calon lân.

Calon lân yn llawn daioni,
tecach yw na'r lili dlos;
dim ond calon lân all ganu,
canu'r dydd a chanu'r nos.

Pe dymunwn olud bydol
chwm adenydd iddo sydd;
golud calon lân, rinweddol
yn dwyn bythol elw fydd.

Hwyr a bore fy nymuniad
gwyd i'r nef ar adain cân
ar i Dduw, er mwyn fy Ngheidwad,
roddi imi galon lân.



‘Agor y Gair’



*Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin*

**Boreau Mercher 26 Chwefror, a 4,11,18 Mawrth 2020
11.00 tan 12.00**

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Maes Astudiaeth
26 Chwefror - Mathew 21:1-17
4 Mawrth - Mathew 26:36-46
11 Mawrth - Mathew 27:45-56
18 Mawrth - Mathew 28:1-20

Croeso cynnes iawn i bawb

**Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org**



CYMDEITHAS Y TAIR EGLWYS
Y Tabernacl, Caerfyrddin
Nos Iau, 6 Chwefror 2020

A naml iawn y byddwn ni yn y Gymdeithas yn trafod pwnc gwyddonol ond dyna fel y bu hi pan ymunon ni â Chymdeithas y Tair Eglwys yn ddiweddar.

Y siaradwr gwadd oedd **Hugh Griffiths**, aelod yn y Tabernacl a chyn Bennaeth Gwyddoniaeth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin a Swyddog gydag Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu



Cymru (ACCAC)) a ddaeth yn Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o fewn Llywodraeth Cymru yn 2006. Derbyniodd radd ddisglair mewn Ffiseg pan oedd yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Abertawe.

Efallai bod teitl sgwrs Hugh Griffiths yn swnio braidd yn frawychus i rai ohonon ni, sef *Y Ddaear, y Gofod a'r Amgylchedd*, ond doedd dim rhaid poeni gan i'r siaradwr ein difyrru gyda nifer o hanesion amrywiol wrth drafod pwnc mor bwysig a dyrys yn ein dyddiau ni.

Craidd ei sgwrs oedd maint

ac oedran y ddaear, ac aeth â ni i wahanol feysydd, fel seryddiaeth, safleoedd daeargrynfeydd a newid hinsawdd, wrth ymrafael â'r cwestiwn. Daethom hefyd i wybod yn y broses am



rai enwogion o dras Cymreig fel

Oliver Evans (1755-1819),

dyfeisiwr technolegol blaenllaw yn yr Unol Daleithiau, gŵr â'i wreiddiau yng Ngharno ym Mhowys. A hynod o ddiddorol wrth drafod hinsawdd oedd gweld ambell hen lun o'r eira mawr yng Nghaerfyrddin ym 1947. Ac wrth gwrs, roedd rhaid sôn hefyd am y glaw a gawn yn ein tref!



Roedd hyd yn oed gwis bach i brofi'n gwybodaeth! Buom wrthi'n dyfalu pryd ddyfeisiwyd y teledu, neilon, yr oergell, y beiro a phenisilin a daethom i wybod mai mor ddiweddar â 1953, ymhell ar ôl darganfod

sawl dyfais pwysig. y cafwyd ffigwr pendant am oedran y ddaear am y tro cyntaf. A beth meddech chi yw oedran y ddaear? Wel, 45 biliwn o flynyddoedd, maen debyg, a brawychus yw meddwl mai dim ond am 0.01% o'r cyfnod hwnnw mae bodau dynol fel ni wedi bod arno!

Llywydd y noson oedd y Dr Eurig Davies a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Iori Jones, Foelcwan. Roedd Enid Davies wrth y piano. Talwyd y diolchiadau gan Peter Bowen,

Mor briodol oedd i ni gydganu emyn cyfoes hyfryd Dafydd Whittall ar ddechrau'r cyfarfod hwn – emyn sy'n canolbwyntio ar ddysg a gwybodaeth wyddonol ac yn datgan yn groyw mai Duw yw creawdwr y bydysawd a ffynhonnell yr holl gyfrinachau. Dyma sut mae'n diweddau:

Arglwydd, cyfarwydda'n hymchwil
a goleua'r deall hwn,
gad in dreiddio i'r hanfodion
ac amgyffred cread crwn:
boed i'n meddwl fedru canfod
gallu mwy na gallu dyn,
a phob arbrawf yn datgelu
gronyn bach yn fwy o'r llun



Diolch am noson wahanol a diddorol ac i ferched y Tabernacl am y baned cyn mynd adre. Aethom tua thref wedi'n bodloni ac yn llawer mwy gwybodus nag oeddem cyn hynny!

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

Darlithoedd a Gweithdai yng Nghanolfan y Coleg
(Festri Heol Dŵr, Caerfyrddin SA31 1PZ)

Pregethu'r Beibl:

Cyfres o ddarlithoedd ar gyflwyno adrannau o'r Beibl i gynulleidfaoedd cyfoes.

Nosweithiau lau 27 Chwefror i 2 Ebrill am 7 o'r gloch.

Angladdau a bugeilio galarwyr

Gweithdai ymarferol i eglwysi.

Nosweithiau Mercher 4, 11 ac 18 Mawrth am 7 o'r gloch.

Croeso cynnes iawn i bawb o bob enwad


TLWS ARBENNIG



Yn ddiweddar, cyflwynwyd Tlws arbennig I Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin gan y Priordy i'w gyflwyno yn y Noson Wobrwyo Flynyddol, ynghyd â gwobr ariannol fach, i ddisgybl neu ddisgyblion hŷn yr ysgol sy'n dangos ymrwymiad ac ymdrech arbennig ym maes Addysg Grefyddol.

Mae'r tlws hardd hwn, wedi'i saernïo gan Gyfadran Dylunio a Thechnoleg yr Ysgol ac yn dwyn enw'r Priordy.

Yn y llun (o'r chwith 'r dde): Tracey Jenkins a Gwenno Morgans, Adran Addysg Grefyddol a'r Parchedig Beti-Wyn James, Cadeirydd y Corff Llywodraethu



FFENESTR CAFFI PETHAU DA CAERFYRDDIN Y PARATOI



Ifanc@Priorddy



Dathlu Gŵyl Dewi

Gwasanaeth Gŵyl Dewi Ysgolion Sul y Dref.

Bydd adroddiad yn rhifyn Ebrill o Bapur Priorddy.

Llanwch y bylchau gyda'r geiriau hyn...

(cofiwch fod 'll' 'dd' 'ff' a 'ch' yn un llythyren yn y Gymraeg!)

bychain, cododd, colomen,
Cymru, ddall, ffydd, hances,
lawen, Non, Paulinus,
Tyddewi



Dewi Sant yw nawddsant _ _ _ _ _ ac yr ydym yn dathlu ei fywyd ar Fawrth 1af - Dydd Gŵyl Dewi - bob blwyddyn. Ganwyd Dewi, yn ôl y sôn, yn ne Ceredigion neu yng ngogledd Sir Benfro. Roedd mam Dewi, _ _ _ , yn lleian ac yn ferch i bennaeth lleol a'i dad, yn ôl yr hanes, yn fab i Ceredig, tywysog Ceredigion. Mae'n debyg i Dewi gael ei addysg yn Llanilltud Fawr. Enw ei athro oedd _ _ _ _ _ . Roedd ei athro yn _ _ _ ond helpdd Dewi ef i gael ei olwg yn ôl. Sefydlodd fynachlog yn y porthladd Rhufeinig 'Menevia' yn Sir Benfro - yn ddiweddarach daeth

y lle hwn yn ddinas gadeiriol wedi ei henwi ar ôl Dewi - _ _ _ _ _ . Tra oedd yn Llanddewi Brefi, casglodd torf anferth i wrando ac roedd llawer yn cwyno nad oeddent yn gallu gweld na chlywed beth oedd yn digwydd. Gosododd Dewi _ _ _ _ _ ar y llawr cyn sefyll arni, ac yn sydyn, _ _ _ _ _ bryn bach o dan ei draed gan ei godi fel y gallai pawb ei weld. Glaniodd _ _ _ _ _ wen ar ei ysgwydd. Rhai o eiriau olaf Dewi cyn iddo farw oedd 'Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch _ _ _ _ _ a chedwch eich _ _ _ a'ch cred, a gwnewch y pethau _ _ _ _ _ a welsoch ac a glywsoch gennyf i'.

	Ysgol Sul a	PIP
Mawrth 8	Ysgol Sul	PIP yn aros yn yr oedfa
Mawrth 15	Ysgol Sul	PIP
Mawrth 22	Oedfa Deulu	Oedfa deulu
Mawrth 29	Ysgol Sul	PIP yn aros yn yr oedfa

Hwyl am y tro:
Beti-Wyn



FFENESTR CAFFI PETHAU DA CAERFYRDDIN YR ARDDANGOS



TUDALEN BLAEN

Rheswm Iwan Evans dros ddewis y dôn Ellers...

Sut mae dewis hoff emyn? Mae fel dewis hoff liw neu hoff fis o'r flwyddyn. Mae'n dibynnu ar y tymor, ar eich sefyllfa ac ar eich hwyliau. Efallai bod ganddoch chi hoff garol Nadolig, hoff emyn priodas, hoff emyn cymanfa a hoff emyn angladd hyd yn oed. Mae'n siŵr bod rhai emynau'n fwy annwyl i ni ac rydym yn siŵr o glywed ambell un drosodd a thro.



Dwi'n hollol sicr mai'r dôn dwi'n ei chlywed amlaf yw'r emyn *Ellers*. Sut hynny medde chi? Fel Trefnwyr Angladdau, dwi'n mynychu tua 180 o angladdau'r flwyddyn (hyd yn oed mwy na'r Gweinidog!) ac fel arfer dwi'n gofyn i'r organydd i chwarae'r dôn *Ellers* yn dawel yn y cefndir tua diwedd y gwasanaeth yn yr Amlogsgfa.. Mae rhywbeth heddychlon a chysurlon am y dôn sydd yn addas yn yr eiliadau anodd hynny.



Mae'n debyg y daw'r enw *Ellers* o enw cyfansoddwr gwreiddiol yr alaw sef **John Ellerton**. Cyfansoddwyd harmoni SATB i'r alaw gan Edward J Hopkins, Llundain, oedd yn organydd arbennig. Bu'n chwarae organ fawr Abaty Westminster cyn ei ben-blwydd yn 16 oed! Sefydlwyd Hopkins yn organydd Temple Church, Llundain ym 1843 a bu yno am 55 mlynedd. Ei olynydd fel organydd yno oedd Henry Walford Davies a daeth yntau hefyd yn ei dro'n gerddor adnabyddus.

Ond yn ôl at Ellers. Er i'r dôn gael ei chyfansoddi'n wreiddiol ar gyfer geiriau Saesneg, emyn **John Roberts** '*Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr*' (758) sydd yn dod i'r meddwl bob tro y clywaf yr alaw hon. Dyma'r rheswm dros dewis y dôn mewn angladdau gan ei fod yn datgan y realiti bod Duw gyda ni bob amser. Bydd yno gyda ni yng nghanol stormydd gwaethaf bywyd, pan fydd eraill yn wan, pan fyddwn yn chwilio am arweiniad a nerth a chadernid...



"nid ofnaf ddim, ei law a'm tywys i â'i gfael ynof er nas gwelaf hi."

COVENTRY A COLOGNE

Bu pregeth Beti-Wyn ar ei hymweliad â Coventry yn fodd i mi gofio'n ôl i'r flwyddyn 1952 pan gyrhaeddais innau Coventry i ddilyn fy ngyrfa yn fy swydd gyntaf fel athrawes.



Roedd swyddi yng Nghymru yn brin iawn yr adeg honno. Diolch i Beti-Wyn am ddeffro atgofion o ddwy flynedd hapus iawn cyn dychwelyd i Ddyffryn Conwy wedi cael swydd ym Mae Colwyn.

Cefais lety gyda phâr hyfryd - byw yn y parlwr a gwneud fy mwyd fy hun. Cawn ymuno â nhw ambell waith i wyllo'r teledu oedd yn gyfrwng prin yr adeg honno. Roedd dweud Eirlys yn broblem felly Alice oeddwn i!!

Y cam cyntaf oedd darganfod y Capel Cymraeg yn y ddinas a bu'n gymorth mawr i setlo yno. Do, bûm yn Fethodist ffyddlon am ddwy flynedd dan weinidogaeth y Parchedig J R. Owen, brodor o Ben Llŷn .



Ond pregeth Beti-Wyn am y cysylltiad rhwng Eglwys Gadeiriol COVENTRY ac Eglwys Gadeiriol COLOGNE ddaeth â sawl digwyddiad yn ôl i'r cof, oherwydd yn ystod fy nghyfnod yng Nghoventry sef 24 Gorffennaf 1953 fe drefnodd JR daith i

ymweld â Cologne. Pwrpas y daith oedd bod ein Gweinidog wedi cael llythyr o ddiolch gan Faer Coventry i'w roi i Faer Cologne i ddiolch iddo am y rhodd o ffenest liw i'w gosod yn yr Eglwys Gadeiriol newydd yng Nghoventry. Fel y gwelsom yn y llun gan

Beti-Wyn mae murddun yr hen eglwys yn dal i sefyll a'r eglwys newydd wedi'i chodi ar ei phwys.

Cafodd y daith argraff ddofn arnom a'r llawenydd o brofi'r brawdgarwch a'r maddeuant rhwng y ddwy ddinas a'r agosatrwydd a deimlwyd tra oeddwn yn aros gyda theulu dieithr ar fy mhen fy hun. Yn ogystal, rhannu'r llawenydd a ddangoswyd ganddynt o ddeall bod Cymru 'n wlad ar ei phen ei hun!!

Diolch am y bregeth a'r pwyslais ar gymod a maddeuant a chael fy atgoffa o'r profiadau hyn gyda'r teulu Von Flemming.



BORE COFFI

Bore Sadwrn, 4 Ebrill 2020 – 10.30-12.30

Festri Capel Y Priordy

Stondinau amrywiol - Gêmau i'r plant - Paned dda a chroeso cynnes!

Mynediad- £2



Elw i gefnogi ymdrech Selina Jones, un o famau'r Ysgol Sul, a fydd yn rhedeg Marathon Llundain dros Gymorth Cristnogol



**THEATR Y LYRIC
YSGOL GYFUN GYMRAEG
BRO MYRDDIN
ying nghwmni
TRI THENOR CYMRU
Nos Wener 6 Mawrth 2020 am
7.30
Tocynnau: ☎0345 2263510**



YMWELIAD ARBENNIG Â LESOTHO

MAE problemau iechyd meddwl yn gyffredin.

Mae trin y cyflyrau hyn yn sialens enfawr yma yng Nghymru, a sylw parhaus yn cael ei roi i'r diffyg darpariaeth a chefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau fel iselder a gorbryder. Wrth ehangu ein golygon y tu hwnt i'r wlad hon gallwn weld nad problem sy'n unigryw i Gymru ydy hon o bell ffordd. Yn raddol mae pwysigrwydd y broblem hon yn cael ei werthfawrogi ac yn cael sylw haeddianol yn y gwasanaeth iechyd,

ac mae newidiadau positif yn digwydd yma yng Nghymru. Ond nid hynny yw'r sefyllfa ym mhob gwlad, ac ychydig fisoedd yn ôl fe ges i'r cyfle i ymweld â Lesotho lle mae'r stori'n bur wahanol.

Mae fy nghysylltiad â Lesotho'n dyddio'n ôl i fy mhlentynod.

Roeddwn yn un ar ddeg oed pan

sefydlwyd Dolen Cymru ym 1985, a ffurfio partneriaeth o gydweithio rhwng Cymru a Lesotho. Fel disgyblion ysgol cawsom y cyfle i efeillio gyda phlant yn Lesotho, a bûm yn cyfathrebu gyda merch yr un oed â mi dros gyfnod o tua wyth mlynedd. Wrth edrych yn ôl, ychydig iawn a wyddwn am ei gwlad hi, ac wrth ddarllen ei llythyrau ces fy nghyflwyno i fyd oedd tipyn gwahanol i fy un cyfforddus i. Pan ddaeth y cynnig y llynedd i fynd i Lesotho, bachais ar y cyfle i gael gweld y lle trwy fy llygaid fy hun.

Dros y blynyddoedd mae Dolen wedi gwneud gwaith arbennig, ac wedi datblygu cysylltiadau cryf rhwng y ddwy wlad yn enwedig ym maes addysg. Mae hefyd nifer o brosiectau iechyd ar waith, a dyna oedd diben fy ymweliad i yno. Roedd tri



ohonom yn rhan o'r daith – Heledd, Paul a minnau, yn feddygon teulu yng Nghymru ac yn gyfarwydd iawn â thrin problemau iechyd meddwl a'r rhwystrau sydd yn bodoli yma.

Bwriad y trip oedd cyflwyno wythnos o hyfforddiant i feddygon cyffredinol yn Lesotho am broblemau iechyd meddwl – a chael cyfle i rannu syniadau a dysgu oddi wrth ein gilydd.



Mae poblogaeth Lesotho'n wynebu'r un heriau â ni, ond mae ceisio darganfod atebion i'r heriau hynny'n sialens wahanol iawn. Mae problemau iechyd meddwl yn gyffredin i'r ddwy wlad, a'r un cyflyrau sy'n effeithio ar bobl

Cymru a Lesotho. Ond mae'r adnoddau sydd ar gael er mwyn trin problemau iechyd meddwl yn dra gwahanol ac yn parhau i fod yn hynod ddiffygiol yn Lesotho. Mae nifer o rwystrau sy'n amharu ar ddarparu gofal iechyd meddwl effeithiol yn Lesotho, a rhan o amcan ein hymweliad oedd codi ymwybyddiaeth ymysg meddygon y wlad

am gyflyrau cyffredin – sut i'w hadnabod, sut i agor y sgwrs am iechyd meddwl a sut i drin y cyflyrau. Mae'r stigma sydd ynghlwm wrth broblemau iechyd meddwl yn parhau'n gryf iawn yn Lesotho ac



mae diffyg adnoddau'n broblem enfawr. Does dim un seiciatrydd yn gweithio yn y wlad gyfan, a diffyg hyder ymysg meddygon cyffredinol wrth drin problemau iechyd meddwl cyffredin. Nod y prosiect yma yn y pendraw ydy rhoi'r hyder i feddygon cyffredinol Lesotho wrth godi ymwybyddiaeth am broblemau iechyd meddwl, a rhan benodol o'r hyfforddiant oedd rhoi'r adnoddau i'w galluogi i addysgu meddygon eraill fel y bo'r neges yn cael ei lledaenu ledled y wlad.

Roedden ni'n gweithio gyda meddygon arbennig iawn. Does dim coleg meddygol yn Lesotho ar hyn o bryd, felly roedd pob

meddyg wedi cael ei hyfforddi mewn gwledydd eraill – y rhan fwyaf yn Affrica ond ambell un wedi teithio ychydig yn bellach. Roedd dwy o'r meddygon wedi cael eu hyfforddi yn Ciwba, ac wedi dysgu Sbaeneg mewn ychydig fisoedd (eu pumed iaith) er mwyn gallu gwneud hynny: unigolion hynod ddeallus a brwdfrydig, ond yn gweithio mewn gwlad â system iechyd sydd yn peri rhwystredigaethau parhaol.

ROEDD yn gyfle hefyd i ni rannu syniadau a dod i ddeall yr heriau sy'n wynebu gwlad fel Lesotho wrth ddatblygu fframwaith cenedlaethol i ddarparu gofal effeithiol. Ac nid Lesotho yn unig sy'n wynebu heriau tebyg. Mae 45% o boblogaeth y byd yn byw mewn gwledydd lle mae llai nag un seiciatrydd i bob 100,000 o bobl. Gydag ystadegau fel hyn, mae'n hawdd gweld pam mae angen edrych ar wella'r ddarpariaeth yn rhyngwladol. Gall problemau iechyd meddwl effeithio ar unrhyw un – yma yng Nghymru neu yn Lesotho. Er bod y ddarpariaeth ymhell o fod yn ddelfrydol yma, roedd treulio cyfnod yn Lesotho'n cadarnhau bod edrych ar y sefyllfa drwy lens ryngwladol yn rhoi darlun pur wahanol.



CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN
CWRDD CHWARTER CANA
DYDD IAU, 12 MAWRTH 2020
Y Gynhadledd am 10.30
Cyfarfod prynhawn am 1.30
Yn ystod y prynhawn bydd y Parchedig
Robin Samuel yn siarad ar y testun
Newid Hinsawdd



Dyddiad a Lleoliad y Cwrdd Chwarter wedi hynny
14 Mai 2020 Capel Nebo, Llanpumsaint



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY
BORE IAU 26 Mawrth 2020

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11
Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



DATGYSYLLTU EGLWYS LOEGR YNG NGHYMRU 31 Mawrth 1920



DDOE A HEDDIW

Yn wyneb cynnwrf o brotesiadau, gwrthododd y Ficer ganiatáu Gwasanaeth Claddu Anghydfurfiol ym mynwent Llanfrothen, Gwynedd, a hynny ym 1886 yn rhoi hwb i gyfreithiwr ifanc, David Lloyd George ennill sedd Caernarfon o 18 pleidlais ym 1890.

Yn yr un cyfnod anafwyd dros 80 (gan gynnwys 35 o blismyn) ym Mochdre, Sir Ddinbych, wrth brotestio yn erbyn talu'r Degwm, protest a gefnogwyd gan Lloyd George a T.E Ellis a Thomas Gee a'i Bapur *Baner ac Amserau Cymru*.




Cododd Deddf Degwm 1836 ddicter ffermwyr Anghydfurfiol yn Nyffryn Tywi, Sir Benfro a Cheredigion a'r Gogledd at gael eu gorfodi i gynnal yr Eglwys ('Yr Hen Estrones') tra oedd disgwyl iddynt gynnal eu henwadau dewisol o'u pocedi eu hunain. Roedd hynny'n golygu cynnal aml arwerthiant gorfodol o'u heiddo - mewn cyfnod o ddirwasgiad, fel yn Iwerddon. Ateb y Ceidwadwyr yn y Senedd oedd pwysleisio dioddefaint yr Offeiriaid yng Nghymru, gan fod llawer o'r arian a oedd yn ddyledus i'r Eglwys yn ffeindio'i ffordd i goffrau lleygwyr pwerus ac roedd talu cynnyrch amaethyddol i'r Eglwys yn y Beibl ac yn arfer ers canrifoedd.

Ond wrth i Ryddfrydwyr Cymru dderbyn '*nad oedd fawr obaith y datgysylltid yr Eglwys yn Lloegr*' canolbwyntiwyd '*ar ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru...{a} gwithiwyd y Ceidwadwyr - nad oeddynt yn eu gwraidd yn fwy anghymreig na'r Rhyddfrydwyr - i sefyllfa lle'r oedd modd eu portreadu fel plaid wrth-Gymreig, datblygiad a fyddai'n taflu cysgod hir dros wleidyddiaeth Cymru*' (John Davies).

Ynghlwm â'r Degwm roedd Pwnc y Tir, y berthynas rhwng y tenant (Anghydfurfiol yn bennaf) â'r landlord (yn aml Anglicanaidd). Erbyn y 1880au roedd bron 90% o'r tir yn ffermydd tenantiaid. ac anghydfod wedi dwysáu gyda chau tir comin dros ddwy ganrif,

Roedd ansicrwydd daliadaeth tir a 'throi allan' yn bynciau lloerig yn Etholiadau 1859 ac 1868 yn ymgyrchoedd TE.Ellis a Lloyd George '*Wales was a nation of non-Conformists*' honodd y Prif Weinidog Rhyddfrydol Gladstone yn y 1880au, er yng Nghyfrifiad 1851 dynodwyd fod llai na 50% yn mynychu unrhyw addoldy (K.O.Morgan) a phapurau'r enwadau'n pardduo dirywiad amlwg yn wyneb y



diwydiannu, y seciwlareiddo a'r syniadau newydd am esblygiad.

Yr 'Hen Gorff', y Methodistiaid oedd gryfaf, yn y gogledd a'r gorllewin, yn ail yr Annibynwyr, yn Sir Gâr a Morgannwg, a'r Bedyddwyr yn drydydd ond yn cryfhau.

Adfywio oedd hanes Anglicaniaeth yn y cyfnod hwn. Codwyd tua 350 o eglwysi rhwng 1851-1910, dyblodd rhif y Cymunwyr, sefydlwyd dros 1000 o ysgolion eglwysig gan y Gymdeithas Genedlaethol erbyn 1870 (300 gan yr Anghyddfurfwyr} a chododd rhif Offeiriaid i dros 1,500. Wedi cyfnod o Seisnigo, ni chafodd unrhyw glerigwr di-Gymraeg ei ddyrchafu'n Esgob rhwng 1870-1920.



Gyda thwf y galwadau dros ddatgysylltu wedi'r Chwyldroadau yn America 1776 a Ffrainc 1789, dyrys fu'r ceisiadau ym Mhrydain, a Chymru. Methiant fu ymgais Aelod Seneddol Dinbych, Watkin Williams ym 1869 a Lloyd George a'i ffrindiau ym 1894-5, pan wrthwynebwyd y Mesur gan yr Arglwyddi

Hyd yn oed wedi llwyddiant ysgubol y Rhyddfrydwyr yn Etholiad 1905 a dylanwad Diwygiad 1904-5 yng Nghymru ni fu fawr o sylw i'r pwnc. Ysgafnodd Deddf 1891 ychydig ar denantiaid wrth sicrhau mai'r landlord oedd i dalu'r Degwm, a throdd y sylw at sosialaeth a seciwlariaeth, a hynny cyn dylanwadau'r Rhyfel ym 1914.

Llwyddwyd erbyn Medi 1914 i ddeddfrydu, wedi hir ymgyrchu a gwrthwynebu, ond gyda'r Rhyfel yn torri penderfynwyd gohirio gweithredu'r Ddeddf Datgysylltu tan 1920. Trefnwyd i'r plwyfi ar hyd y Gororau ddewis aros yn Eglwys Loegr, neu fel plwyf Llansilin (cynefin y Canon Patrick Thomas) ymuno â'r Eglwys yng Nghymru.

Sicrhau fod pob enwad yn gyfartal oedd nod Datgysylltu, gan ddileu unrhyw ddylanwadau gwleidyddol ar eglwys. Ond egwyddor

arall ynglwm â hyn oedd Dadwaddoli, sef dileu statws ac unrhyw waddolion - arian neu eiddo a adewir yn incwm parhaol. Collodd Esgobion Cymru'r seddau yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Sicrhodd Deddf 1919, Welsh Church Temporalities Act (oherwydd y chwyddiant yn ystod y Rhyfel Mawr) filiwn o bunnoedd i Gomisiynwyr yr Eglwys, gan leddfu llach y Datgysylltu. Amddifadwyd yr Eglwys yng Nghymru o £48.000 y flwyddyn a thros amser (oherwydd y cymhlethdodau) trosglwyddwyd bron dwy filiwn a hanner o bunnoedd i'r Cynghorau Sir a bron filiwn i Brifysgol Cymru.



Sefydlwyd Corff Cynrychioliadol i weinyddu eiddo'r Eglwys a Chorff Llywodraethol i reoli polisïau a chredo. Cysegrwyd A.G.Edwards yn Archesgob yn Llanelli 1 Mehefin 1920, gan wireddu breuddwyd Gerallt Gymro a rhyddhau esgobion Cymru o'r llw i Archesgob Caergaint. Maes o law sefydlwyd y chwe Esgobaeth bresennol yng Nghymru. Erbyn heddiw y dalaith Gymreig yw un o'r rhai hynaf o dros ugain o daleithiau hunanlywodraethol Cymuned Anglicanaidd y Byd - ac sydd wedi profi arweiniad gan gyn-Archesgob Cymru.

Agorwyd y drws i ailgydio ac ehangu, os dymunir, weledigaeth ac etifeddiaeth crefyddwyr o Gymru fel William Morgan, William Salesbury, Ficer Pritchard, Griffith Jones, Pantycelyn, y Diwygwyr Methodistiaidd ac Ann Griffiths.

Fel y dyfarnodd John Davies gwireddwyd, efallai, ddyhead un fel W.J.Gruffydd am gytundeb yn lle meithrin '*chwerwedd enwadol...ar draul..canolbwynto ar gydymwybyddiaeth o drefnadaeth genedlaethol*'. Gallwn fyfyrto ar gyfraniadau tri o gyfoeswyr a ffrindiau agos, sef yr Archesgob George Noakes, y Canghellor a'r Anrhydeddus Armeniad Patrick Thomas ac Archesgob Caergaint Rowan Williams.



NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

Cyngor Eglwysi Caernarfon

Ym mis Ionawr, cynhaliwyd oedfa ddwyieithiog yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon i gychwyn Wythnos Weddi am Undeb Gristnogol.

Dilynwyd y deunydd a baratowyd gan eglwysi Malta i Gyngor Eglwysi Prydain ac Iwerddon.

Neulltir p'nawn/nos Sul y trydydd Sul yn Chwefror bob blwyddyn dan adain y Cyngor Eglwysi i roi sylw i faterion cyfoes. Eleni gwahoddwyd Arfon Jones i siarad am Y Beibl ar Ferched. Credwn fod sawl un wedi mynd o'r cyfarfod wedi cael ei addysgu o'r newydd!

Edrychwn ymlaen at gyfarfodydd y Grawys.



Y Gymdeithas

Yng nghyfarfod Mis Ionawr, cafwyd cwmni Wil Aaron, yr arloeswr ym myd teledu sydd wedi gweithio fel cyfarwyddwr a chynhyrchydd annibynnol. Soniodd am y Cymry a ymfudodd i Ogledd America 1847-1865 ac ymuno â'r Mormoniaid.

Yng nghyfarfod Chwefror, un o aelodau Salem, Mair Price, fu'n sôn am ei theulu. Dyma'r teulu y cyfeiriwyd ato gan Angharad, merch Mair a'r diweddar Emyr, yn ei chyfrol *O! Tyn y Gorchudd*.

Ym mis Mawrth, dethlir Gŵyl Dewi yng nghwmni Geraint, Nerys ac Alwena, Trawsfynydd.

Agor y Llyfr

Mae'r cynllun wedi ailgychwyn ac Ysgol Maesincle sy'n ein croesawu'r tymor yma. *Y pincic anferth* oedd y stori gyntaf a gyflwynwyd ac yna hanes y Brenin Doeth, Solomon. Pan welodd un o blant Ysgol y Gelli un o'r criw Agor y Llyfr, ei ymateb oedd – "*Ti yw dyn y Beibl. Ie?*"

Alison Parsons...

I'r rheiny ohonych chi sy'n fy 'nabod, byddwch yn gwybod fy mod yn hoff iawn o ddilyn rygbi. Ers i Dad fynd â fi i Barc y Strade yn groten fach, rwyf wedi dilyn y Scarlets a'r tîm rhyngwladol. Bob blwyddyn yn ystod cystadleuaeth y chwe gwlad rydym yn mynd i weld un gêm dramor ac eleni aethon ni i Ddilyn i wyllo gêm Cymru ag Iwerddon. (Does dim ishe sôn am y canlyniad!).



Rhaid cyfaddedd fy mod wedi gwneud y daith hon sawl gwaith o'r blaen ac wedi ymweld â'r llefydd traddodiadol i ymwelwyr, Coleg y Drindod, St Stephen's Green, Carchar Kilmainham, Temple Bar, ac wrth gwsr Bragdy Guinness a Jamesons! A thuag at Fragdy Guinness roeddwn yn cerdded wrth i mi basio Eglwys Gadeiriol Christ Church eleni.

Wrth basio'r fynedfa ces fy nenu gan gerflun yn union y tu mewn i'r giât - **cerflun yr Iesu di-gartref**. Cerflun pres o Iesu â'i ben a'i gorff wedi'u gorchuddio

gan flanced a dim ond y traed a'r coesau i'w gweld.

Mae'n gerflun pwerus iawn sy'n eich denu i'w gyffwrdd, a'r hyn sy'n dangos, heb os, mai Iesu yw hwn, yw olion yr hoelion yn y traed. Teimlad cymysglyd yw cyffwrdd â'r traed ond mae'n amhosibl peidio. Teimlais euogrwydd o feddwl fy mod wedi mynd heibio i nifer o bobl digartref heb roi dim iddynt wrth i mi gerdded i fragdy Guinness. Teimlais hefyd yr angen i oedi ac ystyried yn ddwys



a chofiais wrando ar Beti-Wyn yn pregethu am yr Iesu digartref ychydig yn ôl.

Timothy Schmalz o Ganada yw cerflunydd yr Iesu digartref. Meddai am y cerflun: *It's supposed to make you feel uneasy, to challenge you*" a dyna'n union a wnaeth.



Mae'r cerflun gwreiddiol yng Ngholeg Regis, Toronto er 2013 ac mae yna nifer wedi'u gosod ar draws America ers hynny. Yn rhyfedd iawn mae'r cerflun a'i ystyr yn rhannu pobl. Gwrthodwyd cais i'w osod yn St Martin-in-the-Fields - a hefyd Abaty Westminster - oherwydd y teimlad nad oedd yn gweddu i'r amgylchedd!! Mae na gerflun yn Glasgow ac yn Lerpwl.



Yng nghanol prysurdeb y penwythnos, bues mor falch o gael y profiad o weld a chyffwrdd â'r cerflun arbennig hwn, a hynny'n ddamweiniol. Wrth ddarllen ychydig mwy am y cerflun ar ôl dychwelyd adref, rwy'n deall fod yna un yn y Fatican yn Rhufain - a Chymru'n chwarae yn erbyn yr Eidaol yn y

Stadio Olimpico y flwyddyn nesa!!

GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN
Prynhawn Gwener – 27 Mawrth 2020 – 2 o'r gloch
gyda'n Gweinidog
Croeso i bawb



CWRDD BLYNYDDOL DIACONIAID Y PRIORDY A CHANA
A BLAENORIAID BANCYFELIN
Nos Fercher 11 Mawrth 2020 ym Mancyfelin am 7
CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY
Nos Fercher 6 Mai 2020 am 7 yn y Festri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

YSGRIFENNYDD CYFAMODI NEWYDD Y PRIORDY

DENNIS JONES



Mae Dennis Jones wedi derbyn gwahoddiad i fod yn Ysgrifennydd y Cyfamodi.

Bydd yn olynu'r Dr Huw Michael wrth y gwaith.

Mae'r cynllun cyfamodi'n bwysig ac yn dod ag incwm sylweddol i'n capel yn flynyddol

Ein dymuniadau da i Dennis wrth y gwaith a chofiwch gysylltu ag e os ydych yn dymuno rhagor o wybodaeth am y cynllun hwn.

DIOLCH AM RODD


Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhodd arbennig o hael a dderbyniodd y Priordy drwy ewyllys y ddiweddar Beatrice Doreen Evans. Yn aelod yn y Capel Wesle yn y dref, roedd cylch agos iawn o ffrindiau gan Doreen Evans yn y Priordy a byddem yn cael ei chwmni mewn rhai digwyddiadau, fel y Drws Agored. Collodd ei gŵr, y diweddar Trevor Evans, un o ffyddloniaid y Priordy, ac yna'n ddiweddarach ei hunig blentyn, Janet. Diolchwn iddi unwaith eto am gofio'r Priordy.



MUNUD I FEDDWL

Bydd y Gweinidog ar *Munud i Feddwl* ar raglen y Post Cyntaf ar Radio Cymru bob bore lau am 7.20 yn ystod mis Mawrth

BLYCHAU YN Y CYNTEDD



COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS
YN Y CYNTEDD



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Mawrth		Ebrill	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Wyn Tegryn Evans	Huw Jones	Catrin Heledd Jones	Huw Michael



PARATO'I'R BWRDD CYMUN



Ebrill (Sul y Pasg)	12	Bore	Catrin Heledd a Jayne Jones
------------------------	----	------	-----------------------------



BLODAU



Mawrth	1		Ebrill	5	Ann Thomas
	8	Luned Thomas		12	
	15			19	Myfanwy Jones (Abergwili)
	22	Enid Evans		26	
	29				



YMWELWYR



Mawrth / Ebrill	Rhian Evans ac Eirlys Jones Henry a Bronwen Wilkins
-----------------	---



DARLLENWYR



Mawrth	1		Ebrill	5	Mari Jenkins
	8	Jayne Woods		12	Carys Morgans
	15	Chris Lloyd		19	Peter H Griffiths
	22	Y Mamau		26	PIP yn arwain
	29	Elinor W Reynolds			



CYHOEDDWYR



Mawrth	Catrin H Jones	Ebrill	Elis Jones
--------	----------------	--------	------------

Y DIWEDDAR TUDOR DAVIES

Coffawn y diweddar Tudor Davies a fu farw yn Ysbyty Glangwili ar 27 Ionawr 2020.

Cysylltwn Tudor â fferm Penlanffos lle bu'n gweithio'n ddiwyd yn trin y tir ac yn gofalu am y stoc ers nifer fawr o flynyddoedd.

Roedd yn amaethwr o'i goryn i'w sawdl. Wedi iddo fe a Non ymddeol i'w cartref yn Heol Bronwydd, bu Tudor yn parhau i weithio ar y fferm gyda Geraint a'r teulu, gan gynnig nid yn unig help llaw ond hefyd yngor doeth a chefnogaeth.

Cafodd yn Non wraig a fu'n cyd-weithio'n agos ag e a magwyd tri o blant ganddynt, Carys, Geraint ac Ann. Roedd gan Tudor olwg mawr o'i deulu ac ymfalchïai o weld ei wyron a'i wyresau'n tyfu gan gymryd diddordeb mawr yn eu bywydau.

Ymgartrefodd Tudor a Non yn Trysor, Heol Abergwili ychydig flynyddoedd yn ôl, a bu'r aelwyd yno, fel yn Heol Bronwydd a Phenlanffos, yn un gynnes a chroesawgar.

Daeth y teulu a ffrindiau agos yn unig ynghyd, yn ôl ei ddymuniad, i Amlogfa Treforys ar 5 Chwefror 2020 i oedfa i ddiolch am ei fywyd. Gwasanaethwyd gan ei weinidog gyda chymorth ei gefnder Y Parchedig Roger Thomas a thalwyd teyrnged hyfryd iddo gan ei gefnither.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Non, Carys, Geraint ac Ann, ynghyd â Dewi, Rachel a Doug. Cofiw'n hefyd am yr wyrion a'r wyres, Jac, Tom, Oliver a Ruby. Gweddïwn yn bydd Duw yn eu cynnal yn eu hiraeth o golli priod, tad a thad-cu annwyl.

DYDD GWEDDI

Oedfa Gymraeg

Dydd Gwener, 6 Mawrth 2020 – 2 o'r gloch

Capel yr Annibynwyr Saesneg, Heol Awst



DATHLU GŴYL DEWI

Pethau Da – Nos Lun 2 Mawrth – 7

Gwestai – Rebecca Hayes



ANFONWN ein cofion cynhesaf at Mair Baston sy yn yr ysbyty ac at bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn. Dymunwn yn dda iddynt i gyd. Mae'r gwanwyn ar y ffordd!

Croeso cynnes iawn i Brynmor, mab i Hanna ac Iwan Griffiths a aned ar 27 Ionawr 2020 a brawd bach i Aneirin, un o blant ein Hysgol Sul. Llongyfarchiadau mawr.



Cafodd ein plant gyfle gwych i ymarfer eu doniau celf yn ddiweddar drwy ddylunio cennin Pedr bach i addurno ffenest Caffi Pethau Da yn y dref i gydfynd â phythefnos dathlu'n Nawddsant. Mae'n diolch yn fawr i Alison Parsons am estyn y gwahoddiad i ni. Mae lluniau o waith ein plant yn y Papur hwn.

Mae **Dros Ginio** ar **Radio Cymru** bob dydd Mercher yn cynnwys eitem am Arwyr Coll. Un prynhawn yn ddiweddar bu James Williams yn holi Peter Hughes Griffiths am ei arwr coll, sef John William Evans sy'n cael ei adnabod wrth ei ffugenw John y Gwas. Bu'n athro yn Ysgol Aber-banc am flynyddoedd cyn cadw tafarn yn Nhre-fach a ddaeth i'w hadnabod fel



Tafarn John y Gwas. Roeddyn adnabyddus yn lleol fel eglwyswr, cynghorydd, casglwr, mchwilydd ac eisteddfodwr. Os ydych chi eisiau gwybod mwy am y person hynod hwn wel trowch at wefan Stori Fawr Dre-fach Felindre lle mae erthygl ddiddorol amdano gan Peter.

Bu Rebecca Hayes yn adolygu'r papurau a'r gwefannau ar raglen **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ar **Radio Cymru** yn ystod y mis. A bu'r Dr Llinos Roberts yn trafod problemau cysgu ar Raglen **Bore Cothi**. Bydd gwylwyr **Dechrau Canu Dechrau Canmol** wedi sylwi bod un o'r emynau a ganwyd yn y rhaglen o Ferthyr Tudful yn dod o'r Priordy a gwelwyd sawl wyneb cyfarwydd yn y gynulleidfa. Bu Beti-Wyn ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn trafod hanes Cyfnod y Grawys. – ond trueni am y taflu pancosen!! Gwell lwc y tro nesa - efallai! A chafwyd cyfweiliad â Sophia Rizzi ar **Heno** ar **S4C** pan fu'n sôn am ei gwaith gyda **Classic FM**.

Llongyfarchiadau i Gwenan, un o blant yr Ysgol Sul, ar dderbyn tlws Prif Dymblwr Gymnasteg y Flwyddyn 2019 yn Noson Wobrwyo Clwb Gymnasteg Caerfyrddin yn ddiweddar. Ac roedd un arall o'n plant, Cian Evans, wrth ei fodd ar gael ei ddewis yn fasnog ar gyfer un o gemau'r



Scarlets. Ardderchog!

I GLOI, llongyfarchiadau i Luned (Voyle) Thomas ar ddathlu pen-blwydd arbennig (ffigur crwn) yn ddiweddar. A hefyd i Elinor Wyn Reynolds a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig (yr un ffigur crwn!!) cyn diwedd mis Mawrth! Dymuniadau da i'r ddwy ohonoch, oddi wrth bawb yn y Priordy



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ebrill i'n Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Alun Charles ☎ 01267 236037

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Gareth a Rhian Gravell ar golli tad Rhian, sef John Samuel Jenkins (Jac) ar 3 Chwefror 2020. Meddyliwn am ei briod, Beryl, a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.

Cydymdeimlwn â Menna Elfyn a Wynfford ar golli chwaer Menna, sef Siân Elfyn Jones a modryb a hen fodryb i Fflur Dafydd a'r plant, Luned a Beca, ar 4 Chwefror 2020. Cofiwn am y teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Rydym yn cydymdeimlo â Jacquelin a David Saywell ar golli tad Jacqueline a thad-cu Catrin a Gareth, sef Moton Thomas Jones (gynt o Bontyberem) ar 13 Chwefror 2020. Meddyliwn am y teulu i gyd yn eu galar.

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Mari Jenkins, Lleucu Edwards, Jayne Woods, Hugh Griffiths, Huw Michael a Gwynfor Davies am y lluniau'r mis hwn.



**Rhiannon Williams
yn perfformio
BREGUS**

Nos Lun 23 Mawrth 2020 - Ffesti'r Priordy – 6.30


WYT TI'N COFIO?!!

Troi'r Cloc ymlaen

Nos Sadwrn 29 Mawrth 2020



APÊL Y MIS – LLOCHES I FENYWOD, CAEREFYRDDIN – AR AGOR TAN 8 MAWRTH



Y SULLIADUR



Mawrth	1	<i>Bore</i>	Gwasanaeth Undebol Gŵyl Dewi gyda'r Plant a'r Bobl Ifainc a'r Dr Hefin Jones yn Heol Awst am 10	Cymun
		<i>Hwyr</i>	Gwasanaeth Undebol Gŵyl Dewi yng ngofal Gweinidogion ac Offeiriaid y Dref a'r Parchedig Ainsley Griffiths yn pregethu yn y Babel am 5 Cymanfa Fodern ym Mancyfelin am 7.00	
	8	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	15	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
Sul y Mamau	22	<i>Bore</i>	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog. <i>Casgliad at Goleg Undeb yr Annibynwyr</i>	
	29	<i>Bore Pnawn</i>	Y Parchedig Gareth Morgan Jones Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig Gareth Morgan Jones	

Ebrill Sul y Blodau	5	<i>Bore Hwyr</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
Sul y Pasg	12	<i>Bore Pnawn</i>	Cwrdd Undebol i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Priordy Cwrdd Undebol i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Gymuned ym Mancyfelin am 3	
	19	<i>Bore Pnawn</i>	Y Parchedig T Jeffrey Williams Cwrdd yr Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig T Jeffrey Williams	
	26	<i>Bore</i>	Oedfa gyda PIP a'n Gweinidog	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant
GD – Gwasanaeth Gŵyl Dewi OD – Oedfa Deulu

Mawrth					Ebrill			
1	8	15	22	29	5	12	19	26
GD	✓	✓ PIP	OD	✓	CP	-	-	✓

Y GYMDEITHAS

Nos Lun 6 Ebrill 2020 - 7.00

MARY THORLEY